# Crynodeb Gweithredol

Mae Cyfarwyddeb Safonau Diogelwch Sylfaenol 2013 (2013 BSSD) yn cydgrynhoi ac yn diweddaru deddfwriaeth bresennol Euratom ar ddiogelwch ymbelydrol. Mae'r Gyfarwyddeb newydd yn cymryd i ystyriaeth ddatblygiadau yn yr argymhellion a'r safonau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Ymbelydrol a'r Asiantaeth Ynni Atomig Rhyngwladol. Mae'n ymwneud â datguddiadau ymbelydredd meddygol, galwedigaethol a chyhoeddus ac mae'n darparu ar gyfer tri math gwahanol o sefyllfa le ceir datguddiad:

- **Datguddiadau cyhoeddus presennol**, gan gynnwys rheoli tir lle ceir hanes o halogiad ymbelydrol a datguddiad i nwy radon sy'n digwydd yn naturiol mewn cartrefi;
- **Datguddiadau cynlluniedig**, o ran gweithgareddau a awdurdodwyd ac sy'n cynnwys sylweddau ymbelydrol, er enghraifft er mwyn cynhyrchu pŵer neu ar gyfer gofal iechyd; a
- **Datguddiadau mewn argyfwng** a allai godi yn sgil damwain er enghraifft.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar **ddatguddiadau ymbelydrol cyhoeddus mewn sefyllfaoedd sydd wedi'u cynllunio ac sydd eisoes yn bod** ac mae hefyd yn cynnwys cynigion i ddiwygio'r fframwaith rheoleiddio presennol ynghylch **cyfiawnhau arferion sy'n cynnwys ymbelydredd ïoneiddio**.

Mae gan y Deyrnas Unedig fframwaith aeddfed ac effeithiol eisoes ar gyfer diogelu rhag ymbelydredd ac ar gyfer cyfiawnhau arferion sy'n cynnwys ymbelydredd ïoneiddio. Ran amlaf mae gofynion y Gyfarwyddeb eisoes wedi'u rhoi ar waith gan y ddeddfwriaeth bresennol, ac felly gall y Gyfarwyddeb gael ei thrawsosod yn neddfwriaeth y Deyrnas Unedig i raddau helaeth o fewn fframwaith presennol deddfwriaeth y Deyrnas Unedig. Ran amlaf, mân ddiwygiadau yn unig y bydd eu hangen yn neddfwriaeth y Deyrnas Unedig, er enghraifft i ddiweddaru cyfeiriadau a chyfatebiaethau sydd bellach wedi mynd yn hen. Mae rhai o'r erthyglau yn BSSD 2013 yn gofyn diwygiadau mwy sylweddol neu'n cyflwyno gofynion newydd nad ydynt yn bodoli yn neddfwriaeth y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Y mesurau trawsosod hyn yw testun yr ymgynghoriad hwn.

Mae'r cyfundrefnau rheoleiddio ynglŷn â rheoli datguddiadau cynlluniedig a datguddiadau sydd eisoes yn bod yn y Deyrnas Unedig wedi'u datganoli, ond mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Llywodraethau Datganoledig wedi ceisio cadw safonau cyffredin cyn belled ag y bo modd. Gan hynny, mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u paratoi ar y cyd gan y BEIS, yr Adran Iechyd, yr Adran

Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i alluogi'r newidiadau i gael eu gwneud yn y priod gyfundrefnau ar sail gyson.

Mae'r fframwaith rheoleiddiol ynglŷn â chyfiawnhau arferion yn darparu ar gyfer proses i benderfynu a oes cyfiawnhad dros yr arfer, o gymryd manteision posibl yr arfer a'r niwed posibl i iechyd i ystyriaeth. Dim ond arferion y bernir bod cyfiawnhad drostynt sy'n cael eu hawdurdodi gan y cyrff rheoleiddio, megis asiantaethau'r amgylchedd.

Mae rhoi BSSD 2013 ar waith yn sicrhau y gall y Deyrnas Unedig fodloni ei hymrwymiad i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau fel un Aelod-wladwriaethau'r UE a Chytuniad Euratom cyn iddi ymadael â'r UE. Ein prif ymagwedd at drawsosod cyfreithiau yw sicrhau bod y **mesurau arfaethedig yn parhau i gryfhau a mireinio trefniadau'r Deyrnas Unedig ynglŷn â diogelu'r cyhoedd rhag ymbelydredd a'u bod mor gymesur ac effeithlon â phosibl.** Rydym wedi nodi nifer o gyfleoedd i fireinio ac egluro'r ddeddfwriaeth bresennol i sicrhau bod y safon ddiogelwch angenrheidiol yn cael ei gwireddu'n fwy effeithlon. Manylir ar y manteision amgylcheddol ac economaidd sy'n gysylltiedig â'r mesurau "gwell rheoleiddio" hyn hefyd yn yr Asesiad Effaith drafft sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn. Drwy gryfhau fframwaith y Deyrnas Unedig ar gyfer diogelu ymbelydrol ymhellach, bydd y mesurau arfaethedig hefyd yn cynnal hyder y cyhoedd yn y trefniadau ar gyfer galluogi sylweddau ymbelydrol i barhau i gael eu defnyddio'n ddiogel ar gyfer pŵer niwclear, gofal iechyd a llawer o ddibenion buddiol eraill.

Mae'n dull polisi hefyd yn cael ei ysgogi gan y nod o sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn cadw ei safle fel arweinydd rhyngwladol mewn diogelwch ymbelydrol. Mae gofynion BSSD 2013 wedi'u seilio i raddau helaeth ar y safonau a'r argymhellion a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Ynni Atomig Rhyngwladol a chyrff rhyngwladol eraill, y mae'r Deyrnas Unedig yn eu cefnogi.

Mae'r Deyrnas Unedig wedi elwa o fwy na 60 mlynedd o drydan a gynhyrchir gan ynni niwclear yn lân ac yn ddiogel. Mae pob un o'n safleoedd niwclear ac ymbelydrol a chludiant deunydd ymbelydrol yn cael eu rheoleiddio'n annibynnol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn amgylcheddol gadarn.

Edrychwn ymlaen at gael sylwadau a thystiolaeth ychwanegol gan yr ymgyngoreion a byddwn yn defnyddio'r rhain i lywio'r gwaith i baratoi Asesiad Effaith terfynol a gweithredu'r ddeddfwriaeth i ddod â'r mesurau i rym.